Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Maes Owen**
**Morfa Avenue**
**Foryd**
**Conwy**
**LL18 5LE**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Iau Maes Owen ym Mae Cinmel ac mae'n gwasanaethu'r dref ei hun ac ardaloedd cyfagos Towyn a'r Rhyl.

Mae gan yr ysgol 222 o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn wyth dosbarth oedran cymysg, sy'n cynnwys pedwar dosbarth Blwyddyn 3 a 4 a phedwar dosbarth Blwyddyn 5 a 6. Yn ogystal, mae canolfan adnoddau â 12 lle i ddisgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol, sy'n darparu ar gyfer disgyblion oddi mewn i'r ysgol ac o ysgolion lleol eraill.

Mae tua 36% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan 34% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae ychydig iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth presennol yn bennaeth dros dro yn Ionawr 2013 ac yn bennaeth parhaol ym Medi 2013. Bu nifer o newidiadau i'r staff ers hynny, gan gynnwys penodi dirprwy bennaeth newydd yn Ionawr 2014. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Maes Owen yn 2014-2015 yn golygu bod y gyllideb fesul disgybl yn £3,962. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £15,278 a'r lleiafswm yw £3,190. Mae Ysgol Maes Owen yn safle 35 o'r 59 ysgol gynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- yn 2014, roedd perfformiad ar y lefelau disgwyliedig i ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â pherfformiad y tair blynedd blaenorol;
- mae presenoldeb disgyblion yn gwella o ganlyniad i ystod o strategaethau newydd ac effeithiol;
- mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi diddorol ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion;
- mae gofal, cymorth ac arweiniad i bob disgybl o ansawdd uchel; ac
- mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd cymdeithasol a moesol cryf sy'n golygu bod bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, yn gynorthwyol ac yn ymddwyn yn dda iawn.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn ymestyn eu medrau ddigon trwy ysgrifennu darnau hwy ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd neu ddibenion, nac yn dysgu i wella eu gwaith trwy ailddrafftio;
- mae safonau llawysgrifen, atalnodi a gramadeg disgyblion yn rhy amrywiol;
- nid yw cwricwlwm yr ysgol yn caniatáu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm bob tro; ac
- nid yw athrawon yn defnyddio marcio bob tro i fynd ar drywydd gwallau cyffredin yng ngwaith disgyblion yn ddigon cyson.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol clir, y maent yn eu cyfathrebu'n dda i staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni;
- mae tystiolaeth glir o welliant ar draws agweddau allweddol ar waith yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yn ansawdd yr addysgu, darpariaeth gref ar gyfer lles disgyblion, a safonau gwell ym medrau darllen a mathemategol disgyblion;
- mae'r cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau;
- mae cysylltiadau gwerthfawr ag ystod o bartneriaid i wella safonau disgyblion a gwella eu lles; ac
- mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau ariannol a'i staff yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella llawysgrifen, atalnodi a gramadeg disgyblion a sicrhau eu bod yn datblygu strategaethau ailddrafftio i wella eu gwaith ysgrifenedig

A2 Gwella gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion gwahanol

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio marcio'n fwy cyson i fynd ar drywydd gwallau cyffredin yng ngwaith disgyblion a helpu disgyblion i wybod sut y gallant wella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llawer o agweddau ar eu gwaith. Gallant alw i gof y gwaith y maent wedi ei wneud yn dda ac adeiladu'n briodol ar eu medrau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd gwerthfawr mewn grwpiau ymyrraeth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ganolfan adnoddau yn gwneud cynnydd da, yn enwedig o ran datblygu eu medrau cyfathrebu, yn y ganolfan adnoddau ac wrth weithio yn eu gwersi dosbarth prif ffrwd. Maent yn cyflawni'n dda yn unol â'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llefaredd yn dda, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un ohonynt yn siarad yn hyderus yn y dosbarth ac yn mwynhau trafod testunau mewn parau, grwpiau a gwaith dosbarth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau sgwrsio ag ymwelwyr i esbonio eu gwaith a thrafod teithiau ac ymweliadau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir ac yn hyderus ac yn mynegi eu syniadau a'u barn yn huawdl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn cynnal eu lefelau canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trwy'r ysgol gyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwella'n sylweddol o ran datblygu eu medrau darllen gweithredol. Wrth iddynt symud trwy waelod cyfnod allweddol 2, maent yn datblygu strategaethau effeithiol i ddatgodio geiriau, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sydd o leiaf yn unol â'u hoedran ac maent yn mwynhau darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â mynegiant ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn y maent wedi ei ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion mwy galluog yn defnyddio strategaethau fel brasddarllen a sganio yn effeithiol i ymchwilio gwybodaeth a'i chywain o destunau ac oddi ar y rhyngrwyd.

Mae disgyblion trwy'r ysgol gyfan yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu llawysgrifen daclus ac maent yn cyfleu eu syniadau'n llwyddiannus gan ddefnyddio geirfa ddiddorol mewn paragraffau byr, er enghraifft wrth ddisgrifio blaidd neu greu golygfa o stori'r 'Dyn Haearn'. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu medrau ddigon trwy ysgrifennu darnau hwy ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd neu ddibenion gwahanol. Er bod cynnwys gwaith disgyblion yn ddychmygus ambell waith, ar draws y cyfnod allweddol, mae ansawdd ysgrifennu disgyblion yn amrywio gormod. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi'n achlysurol ac mae safonau llawysgrifen yn amrywio'n sylweddol. Nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ailddrafftio da er mwyn gwella eu gwaith yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ar lefel briodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u Cymraeg llafar ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu Cymraeg. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus, er enghraifft yn rôl Helpwr Heddiw. Mae llawer o ddisgyblion yn caffael ystod addas o batrymau brawddegau ac yn defnyddio'r rhain yn gywir mewn tasgau llafar. Mae medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn dangos dilyniant cyson trwy'r cyfnod allweddol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dechrau defnyddio patrymau mwy cymhleth yn eu hysgrifennu. Mae gallu disgyblion i ddefnyddio Cymraeg achlysurol mewn ystod o weithgareddau ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau mathemategol da. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o ystod o gysyniadau mathemategol ac yn defnyddio geirfa fathemategol gywir wrth siarad am eu gwaith. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn deall gwerth lle i filoedd a gallant dalgrynnu rhifau a degolion yn gywir. Gall llawer o ddisgyblion alw ffeithiau lluosi i gof yn dda a chyfrifo ffracsiynau'n gyflym ac yn gywir. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd i ddehongli data mewn amrywiaeth o ffurfiau y mae disgyblion, gan gynnwys graffiau llinell. Mae gallu llawer o ddisgyblion i ddatrys problemau yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth ddatrys problemau'n ymwneud ag amser neu arian. Er bod disgyblion yn cyflawni safonau da mewn gwersi mathemateg, nid ydynt yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon aml mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn amrywiol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae perfformiad wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch o ysgolion tebyg. Ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth a mathemateg wedi dangos tuedd ar i fyny, yn gyffredinol, gan symud yr ysgol o'r 50% is i'r 50% uwch. Mewn Saesneg, mae'r ysgol wedi symud ymlaen o'r 50% is i'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw asesiadau athrawon o waith disgyblion mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, yn adlewyrchu'r safonau a welwyd wrth graffu ar waith disgyblion yn ystod yr arolygiad yn gywir bob tro. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n gyson waeth na disgyblion eraill ym mhob un o'r tri phwnc.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach a chynnal ffordd iach o fyw trwy fwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol ac o'i chwmpas yn rhagorol, sy'n golygu bod yr ysgol yn gymuned ddysgu dawel a threfnus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd ac oedolion, ac yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu.

Mae ymgysylltiad yr ysgol â'r gymuned yn dda. Er enghraifft, maent yn canu carolau mewn cartref preswyl lleol. Mae hyn yn cynnal datblygiad medrau cymdeithasol

disgyblion yn dda.  Mae gwaith y cyngor ysgol yn datblygu'n dda; mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu, a'u bod yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan yr ysgol.  Mae'r rhain yn cynnwys ailaddurno toiledau'r disgyblion a datblygu llwybr heini (trim trail) i gyfoethogi'r amgylchedd dysgu awyr agored.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth wneud dewisiadau ynghylch sut a beth maent yn ei ddysgu.  Ar ddechrau pob testun, mae disgyblion yn dewis pa feysydd yr hoffent ymchwilio iddynt ymhellach ac mae athrawon yn addasu eu cynlluniau'n unol â hynny.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd ystod o strategaethau newydd ac effeithiol a gwaith diwyd y swyddog cyswllt â theuluoedd.  Mae'r ysgol yn adrodd mai 93% yw ei chyfradd bresenoldeb yn 2014. Roedd presenoldeb ysgol yn yr 50% uwch o gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf.  Mae nifer yr absenolwyr mynych wedi lleihau'n sylweddol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar amser ac yn dechrau eu gwersi'n brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae adolygiad yr ysgol o'i chwricwlwm a chyflwyno cynllun ar sail testunau yn sicrhau cwricwlwm ehangach.  Mae testunau'n darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol i bron pob un o'r disgyblion.  Fodd bynnag, mae gorddibyniaeth ar gynlluniau cyhoeddedig yn cyfyngu ar gyfleoedd am fwy o greadigrwydd a hyblygrwydd yn null athrawon o gynllunio gwersi.  O ganlyniad, nid yw medrau ysgrifenedig estynedig a chreadigol disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae athrawon ac arweinwyr yn adolygu eu cynllunio'n rheolaidd i adeiladu'n gynyddol ar ddysgu blaenorol disgyblion.  Mae hyn yn sicrhau ffocws priodol ar ddatblygu medrau disgyblion mewn rhifedd.  Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae athrawon yn colli cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill.  Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith.  Mae athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar godi safonau disgyblion mewn darllen ac mae hyn yn datblygu brwdfrydedd disgyblion dros ddarllen yn dda.  Mae'r ysgol yn cynllunio ystod o strategaethau ymyrraeth effeithiol, sy'n cynorthwyo disgyblion targedig yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwella eu medrau llythrennedd yn briodol.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol.  Mae darpariaeth yn cynnwys cynnal eisteddfod flynyddol ac ymweld â chanolfan breswyl Gymraeg.  Mewn gwersi celf, mae disgyblion yn astudio'r artist o Gymru, Shani Rhys Jones, ac mewn gwersi Saesneg, maent yn darllen amrywiaeth o storïau am chwedlau Cymru.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o ymweliadau, gweithgareddau diwylliannol a chlybiau allgyrsiol sy'n cyfoethogi eu hamser yn yr ysgol ymhellach. Mae wythnos 'Masnach Deg' a'r 'Wythnos Ryngwladol' yn helpu disgyblion i ddysgu am ddiwylliannau ac ieithoedd eraill, ac yn datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae bron pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn ysgogi disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb yn dda. Mae'r berthynas waith agos a'r defnydd o ganmoliaeth gadarnhaol yn cynnal lles disgyblion yn effeithiol ac yn rhoi'r hyder iddynt ymgymryd â phrofiadau dysgu newydd yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi diddorol yn llwyddiannus sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith i ddisgyblion mwy galluog yn ddigon heriol bob tro. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio cwestiynau penagored i ddatblygu medrau meddwl disgyblion ac ymestyn eu dysgu yn dda. Mae pob un o'r athrawon yn amlinellu amcanion dysgu yn glir ac mae cyflwyniadau gwersi yn fywiog ac yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynnal diddordeb yn eu dysgu ac yn symud ymlaen yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn siarad yn rhy hir ac mae hyn yn golygu prinder amser i ddisgyblion gyflawni'r dasg ddilynol er mwyn gwneud cynnydd addas. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae rheolaeth yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol ac mae hyn yn hyrwyddo ymddygiad da iawn a chanolbwyntio parhaus ar dasgau. Mae cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn cynorthwyo gwaith disgyblion yn dda mewn gwersi ac mewn sesiynau tynnu'n ôl.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar gyflawniadau disgyblion. Yn yr arfer orau, maent yn canolbwyntio'n dda ar helpu disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith a chyflawni eu targedau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn mynd ar drywydd gwallau cyffredin yn ysgrifennu disgyblion yn ddigon da bob tro.

Ym mhob dosbarth, mae athrawon a disgyblion yn defnyddio ystod dda o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ac mae disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain â chywirdeb cynyddol. Mae'r defnydd o asesu cyfoedion yn datblygu'n dda, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso meini prawf llwyddiant yn dda i wneud sylwadau defnyddiol ar ansawdd eu gwaith a gwaith disgyblion eraill.

Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o asesiadau a system olrhain gyfrifiadurol i fonitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi a bodloni anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn briodol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn sicrhau bod rhieni'n wybodus ynghylch cynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae aelodau o weithgor maeth y disgyblion yn effeithiol o ran addysgu eu cyfoedion am gael byrbrydau iach, ac mae clwb coginio yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o

bwysigrwydd diet iach yn dda. Mae pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i wneud ymarfer corff, ac mae gemau a chlybiau chwaraeon addas yn cael eu cynnal yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a meithringar lle mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar les disgyblion.

Mae darpariaeth mewn gwersi, yr amgylchedd ffisegol, gwasanaethau ysgol ac ymweliadau yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau ysbrydol, diwylliannol, moesol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r staff cyswllt â theuluoedd a'r staff cymorth sy'n cynnal y rhaglenni anogaeth, fel y 'Clwb Pyramid', yn cyfrannu'n sylweddol at wella presenoldeb a lles disgyblion targedig. Mae gwaith mewn gwersi datblygiad personol a chymdeithasol yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i gael cyfleoedd da i fyfyrio ar eu hemosiynau eu hunain a deall sut gall y rhain effeithio ar eu hymddygiad. Mae hyn yn cyfrannu'n gryf at yr ethos gofalgar ac ymddygiad rhagorol bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ystod eang o asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion sydd ag anghenion dysgu penodol yn effeithiol iawn. Mae athrawon yn adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf trwy raglenni ymyrraeth ac anogaeth, ac yn defnyddio targedau manwl mewn cynlluniau addysg unigol yn dda i fonitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol â chynorthwywyr addysgu, staff cymorth arbenigol a'r ganolfan adnoddau i sicrhau y gall y disgyblion hyn fanteisio ar y cwricwlwm hyd eithaf eu gallu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diogelwch ar y rhyngrwyd yn weithredol trwy'r ysgol gyfan ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol, sy'n gwerthfawrogi pob un o'r disgyblion ac yn eu trin yn gyfartal. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n agos â'i gilydd i ddathlu doniau a gwahaniaethau disgyblion a datblygu eu hunan-barch. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt lefelau uchel o les. Mae gan yr ysgol fentrau gwrthfwlio cryf, sy'n sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr, ac yn gwybod gyda phwy y dylent siarad os bydd problem yn codi. Gall disgyblion fanteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm ynghyd ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol diddorol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn dda i alluogi disgyblion sy'n agored i niwed i fanteisio ar glybiau fel dawnsio stryd a choginio. Mae hyn yn rhoi hwb i'w hunan-barch ac yn datblygu eu dealltwriaeth o fwyta'n iach a phwysigrwydd ymarfer corff yn dda.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel, yn sicr ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae arddangosiadau trwy'r ysgol gyfan yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda ac yn darparu ffocws da ar gyfer dysgu. Mae'r holl staff yn defnyddio'r ardal awyr agored a'r ardal leol yn dda i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae ymweliadau â'r traeth a'r orsaf drenau leol yn ategu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol, y swyddi y mae'n eu darparu a'i nodweddion. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da i ategu dysgu disgyblion. Mae llyfrgell newydd yr ysgol yn datblygu mwynhad disgyblion o ddarllen ac mae'r defnydd o lechi cyfrifiadurol yn ategu medrau llythrennedd disgyblion yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn rheoli'r ysgol yn effeithlon iawn. Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, ac maent yn ei chyfleu'n dda i staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion, ar sail dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae'n darparu cydbwysedd da o her a chymorth. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyflawni'r rhain yn gydwybodol ac yn bwrpasol.

Ers ei phenodi, mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, wedi gwneud llawer o newidiadau a gwelliannau pwysig. Mae'r radd ddigonol a ddyfarnwyd ar gyfer safonau yn wahanol i'r radd dda a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth. Mae hyn oherwydd y bu arweinwyr yn effeithiol yn ddiweddar o ran codi safonau, ond nid yw hyn wedi cael amser i effeithio'n llawn ar y canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae gwelliannau mewn medrau darllen disgyblion, eu medrau Cymraeg a chymhwyso medrau llythrennedd yn amlwg ar draws yr ysgol. Yn ogystal, mae cysondeb strategaethau addysgu o ansawdd da yn helpu i sbarduno gwelliant yr ysgol yn effeithiol. Mae cyfarfodydd uwch reolwyr a staff yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn monitro effaith penderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd hyn yn briodol. Mae'r holl staff yn rhannu arfer dda, yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cyfranogi'n llawn mewn penderfyniadau. Maent yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu dull cynllunio'r cwricwlwm ar sail medrau, yn unol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn wedi arwain at welliannau o ran presenoldeb disgyblion a hyrwyddo mentrau bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd gwerthfawr mewn mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tangyflawniad a difreintedd. Mae hyn yn fuddiol i les disgyblion.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o berfformiad presennol yr ysgol ac maent yn sicrhau ei bod yn bodloni ei rhwymedigaethau statudol yn briodol. Maent yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn dda, ac yn gefnogol o ran helpu i symud yr ysgol ymlaen. Mae llywodraethwyr yn datblygu eu gallu i ddadansoddi'r wybodaeth am ddeilliannau disgyblion er mwyn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar safonau. Maent yn gofyn cwestiynau heriol ac yn rhannu nod uwch reolwyr o wella perfformiad yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn glir. Mae'r broses hunanarfarnu wedi ei hen sefydlu ac mae rheolwyr yn cynnwys yr holl staff a llywodraethwyr yn briodol. Mae arweinwyr pwnc yn llunio cynlluniau pwnc manwl sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i lywio'r broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau rhieni trwy

holiaduron, ac i safbwyntiau disgyblion trwy'r cyngor ysgol.  O ganlyniad i adborth gan rieni, mae'r ysgol yn cynnal gweithdai 'dysgu fel teulu'.  Mae hyn yn galluogi rhieni i gynorthwyo eu plant i ddatblygu eu medrau darllen a rhifedd yn effeithiol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod o strategaethau i fonitro gwaith yr ysgol yn effeithiol.  Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion.  Mae aelodau staff sydd â chyfrifoldebau arweiniol dros feysydd y cwricwlwm yn cydweithio'n agos iawn ag athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu i adolygu cynnydd disgyblion ac ansawdd darpariaeth.  Mae hyn yn llywio cynllunio i'r dyfodol yn dda.  Mae athrawon yn dod yn fwy profiadol ac effeithiol o ran cyflawni'r gwaith hwn, ac mae hyn yn helpu i godi safonau disgyblion, yn enwedig mewn mathemateg, darllen a Chymraeg.  Mae'r holl staff yn defnyddio ystod o ddata perfformiad yn rheolaidd i fonitro cynnydd disgyblion a chynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol.  Er enghraifft, mae'r ysgol yn arfarnu'r cynnydd y gwna disgyblion ar raglenni ymyrraeth yn ofalus, ac mae athrawon yn diwygio eu cynllunio, yn ôl yr angen, er mwyn i'r tasgau weddu anghenion disgyblion orau.

Mae'r ysgol yn seilio ei chynllun datblygu a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella yn gadarn ar ddeilliannau'r hunanarfarniadau o bob agwedd ar fywyd yr ysgol.  Mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a mesuradwy, amserlenni realistig a chostau.  Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol â thargedau rheoli perfformiad ac anghenion hyfforddiant staff.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda ag ystod o bartneriaid i wella safonau disgyblion a gwella eu lles.  Mae rhieni'n teimlo'n gyffyrddus o ran cysylltu â'r ysgol ag awgrymiadau.  Mae'r ysgol yn ceisio adborth ganddynt yn weithredol er mwyn sicrhau gwelliannau i'w plant, ac mae'r fforwm rhieni yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i rieni leisio eu barn ar faterion ysgol.  Mae prosiectau dysgu fel teulu sy'n canolbwyntio ar fedrau llythrennedd a rhifedd yn helpu rhieni i ategu addysg eu plant gartref yn effeithiol.

Mae cysylltiadau agos â'r gymuned yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn dda, er enghraifft cydweithio â'r cyngor tref lleol i drefnu 'Wythnos Hwyl y Coetir' a chymryd rhan ym mhrosiect 'Knitter Bug'.  Mae hyn yn darparu cyfleoedd da i wella medrau llythrennedd, rhifedd, medrau creadigol a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae cysylltiadau pontio cryf â'r ysgol fabanod leol.  Mae athrawon o'r ysgol iau yn addysgu cyfres o wersi i ddisgyblion Blwyddyn 2, ac mae hyn yn eu galluogi i ymgyfarwyddo â methodoleg addysgu cyfnod allweddol 2 a chyfarfod â'r staff cyn iddynt drosglwyddo.  O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn yn eu hysgol newydd.  Mae trefniadau pontio effeithiol i ddisgyblion sy'n symud i'r ysgol uwchradd sy'n galluogi bron pob un o'r disgyblion i symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn hyderus.  Mae'r ysgol yn rhannu'r defnydd o fws mini ac yn cyllido'n effeithiol ar gyfer hyfforddi a datblygu staff ar y cyd â'r ysgol gynradd fwydo.  Mae hyn yn gwella profiadau dysgu disgyblion ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag ystod o bartneriaid addysg ac iechyd i wella arferion gwaith. Mae prosiectau diweddar yr ysgol, fel y 'Clwb Pyramid', yn cael effaith gadarnhaol ar wella hunan-barch disgyblion a'u diddordeb mewn dysgu, ac ar wella presenoldeb disgyblion targedig.

Mae'r cysylltiad rhwng y consortiwm a'r ysgol yn cael effaith fuddiol ar addysg a dysgu. Mae rhannu arfer dda yn helpu i godi safonau. Mae cydweithrediad adeiladu ag ysgolion cynradd eraill i lefelu gwaith disgyblion. Mae hyn yn helpu athrawon i fod â disgwyliadau clir ar gyfer perfformiad disgyblion a dealltwriaeth well o'r camau nesaf. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio athrawon a staff cymorth yn dda i fodloni anghenion disgyblion ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau a'u harbenigedd. Mae'r holl athrawon yn cael amser priodol i gynllunio, paratoi ac asesu, ac mae uwch reolwyr yn cael amser digyswllt ychwanegol ar gyfer dyletswyddau arweinyddiaeth, yn ôl yr angen.

Mae'r holl staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd datblygu proffesiynol ac mae'r ysgol yn defnyddio'r broses rheoli perfformiad yn dda i nodi anghenion hyfforddiant athrawon. Mae effaith yr hyfforddiant diwethaf ar 'beth sy'n gwneud addysgu effeithiol?' yn amlwg yn yr arfer dda a welwyd trwy'r ysgol gyfan.

Mae'r holl athrawon yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi, ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd darpariaeth a defnydd asesu yn yr ysgol. Un enghraifft yw'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio ystod o ddata i fonitro cynnydd disgyblion a gosod targedau pwrpasol iddynt, sy'n gwella safonau mewn darllen a mathemateg.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn effeithlon i fodloni'r blaenoriaethau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynllun gwella ysgol, er enghraifft i brynu adnoddau darllen dan arweiniad a gwella'r amgylchedd dan do ac awyr agored i gynnal dysgu effeithiol.

Gwna rheolwyr drefniadau gwerthfawr i sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio grant Llywodraeth Cymru yn briodol, i leihau effaith tlodi trwy ddarparu rhaglen ymyrraeth targedig i godi safonau llythrennedd a darparu rhaglenni anogaeth i gynyddu hunan-barch disgyblion. Hefyd, mae'r swyddog cyswllt â theuluoedd yn cydweithio'n agos â theuluoedd i wella presenoldeb llawer o ddisgyblion targedig yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau ariannol a staff yn effeithiol. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae llawer o fentrau newydd, ac nid ydynt wedi cael amser i effeithio'n llawn ar godi safonau disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae carfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen sydd ar gael ar gyfer yr ysgol hon.  Lle digwydd hyn, nid ydym yn cynnwys tabl o ddata perfformiad.

**6622110 - Ysgol Maes Owen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 242 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 34.2 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 68 | 79 | 61 | 66 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 73.5 | 48.1 | 67.2 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 68 | 79 | 61 | 66 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 79.4 | 69.6 | 68.9 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 21.5 | 32.8 | 39.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 68 | 79 | 61 | 66 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 79.4 | 57.0 | 83.6 | 87.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 11.4 | 26.2 | 28.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 68 | 79 | 61 | 66 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.9 | 72.2 | 82.0 | 84.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.1 | 21.5 | 21.3 | 31.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 101 | 99<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 91<br>93%<br>92% | 7<br>7%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 103 | 97<br>94%<br>97% | 6<br>6%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 102 | 101<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 103 | 94<br>91%<br>96% | 9<br>9%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 97 | 95<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 103 | 99<br>96%<br>99% | 4<br>4%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 102 | 98<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 102 | 90<br>88%<br>91% | 12<br>12%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 103 | 97<br>94%<br>95% | 6<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 55<br>59%<br>77% | 38<br>41%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 101 | 84<br>83%<br>84% | 17<br>17%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 12 | 10 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 46% | 38% | 12% | 4% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 14 | 10 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 54% | 38% | 4% | 4% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 13 | 10 | 1 | 2 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 50% | 38% | 4% | 8% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 26 | 13 | 9 | 1 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 35% | 4% | 8% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 6 | 13 | 2 | 4 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 50% | 8% | 15% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 25 | 9 | 14 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 36% | 56% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 10 | 14 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 38% | 54% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 10 | 10 | 2 | 3 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 38% | 8% | 12% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 13 | 10 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 50% | 38% | 8% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 10 | 14 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 38% | 54% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 14 | 7 | 4 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 54% | 27% | 15% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 26 | 10 | 11 | 0 | 2 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 42% | 0% | 8% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 26 | 11 | 13 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 42% | 50% | 8% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 26 | 12 | 11 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 46% | 42% | 12% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 10 | 8 | 5 | 1 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 31% | 19% | 4% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 9 | 14 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 35% | 54% | 4% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 26 | 7 | 10 | 5 | 3 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 27% | 38% | 19% | 12% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 25 | 9 | 15 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 36% | 60% | 4% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 11 | 7 | 5 | 1 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 42% | 27% | 19% | 4% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mrs Susan Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Sioned Thomas | Arolygydd Tîm |
| Mr Andrew Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Catrin Foulkes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.